

BookTrust
Getting children reading

# Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol

## Adroddiad Effaith 2024-25

BookTrust
Getting children reading

**Cysylltu â ni:**
queries@booktrust.org.uk

**booktrust.org.uk**
**Dilynwch ni yn:** @BookTrust

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND

© BookTrust 2025
Rhif elusen gofrestredig 313343

# Diolch

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb sy'n gweithio gyda ni ar Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol – y nifer mawr o Gydlynwyr Dechrau Da mewn awdurdodau lleol a'r rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd yn y blynyddoedd cynnar, yn ogystal â chyhoeddwyr, awduron a darlunwyr – sydd i gyd yn dod at ei gilydd i ysbrydoli plant a theuluoedd ar eu teithiau darllen.




**I ddyfynnu'r adroddiad hwn:**
BookTrust (2025) *Adroddiad Effaith Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol 2024-25*. Leeds: BookTrust

Hoffem ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau niferus sydd wedi cefnogi Bookstart Plant Bach ac Oed Cyn Ysgol yn 2024/25, gan gynnwys:

- Adnodd, a noddir gan Lywodraeth Cymru
- Cyngor Celfyddydau Lloegr
- Bloomsbury Publishing
- Sefydliad Build-A-Bear
- Sefydliad Mohn Westlake
- Sefydliad RSM UK
- Elusen Sir Ralph Pendlebury 1880

A phawb sy'n dymuno aros yn ddienw.



# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 4
Ynglŷn â Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol ........ 4
Ein dull dysgu ........ 5
Canfyddiadau allweddol ........ 6
Heriau yn y dirwedd blynyddoedd cynnar ........ 6
Wedi'u cynllunio i wneud gwahaniaeth ........ 8
Nodweddion allweddol ein gwaith ........ 9
Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud ........ 10
Beth nesaf? ........ 15
Cyfeiriadau ........ 16

# Cyflwyniad

## Ynglŷn â Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol

Mae Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol yn cefnogi teuluoedd â phlant 1-4 oed i gael hwyl yn darllen ac i rannu mwy o straeon gyda'i gilydd – gan fod darllen ar y cyd yn gynnar yn rhoi hwb hanfodol i ddatblygiad a lles plant.

**Yn 2024-25, gwnaethom gyrraedd 417,438 o blant 1–4 oed (gan gynnwys 313,079 o deuluoedd ar incwm isel)**




**Gwnaethom weithio gyda thros 17,000 o bartneriaid blynyddoedd cynnar ar draws 7,000 o wahanol leoliadau a sefydliadau i wneud hyn**

**Mae darllen yn rhywbeth i bob plentyn** – dyna sylfaen cenhadaeth BookTrust. Rydym yn canolbwyntio ar blant a theuluoedd sydd angen mwy o gymorth gennym ac a fydd yn cael y budd mwyaf. Dyna pam y gwnaethom gynllunio Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol i ddiwallu anghenion teuluoedd ar incwm isel[1], gan fod darllen yn helpu i oresgyn anghydraddoldebau cyn iddynt ddyfnhau. Rydym yn gweithio gyda'n rhwydwaith cenedlaethol o bartneriaid sy'n darparu'r arbenigedd sydd ei angen i greu llwybrau i gyrraedd y teuluoedd hyn lle maen nhw.

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o leoliadau a sefydliadau i ddarparu Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol, gan gynnwys:

- **Addysg blynyddoedd cynnar[2]**
- **Llyfrgelloedd**
- **Lleoliadau amlasiantaeth sy'n cefnogi teuluoedd[3]**
- **I lechyd blynyddoedd cynnar[4]**
- **Elusennau a sefydliadau cymunedol[5]**




Mae **Dechrau Da i Blant Bach** wedi'i gynllunio ar gyfer plant 1–2 oed ac mae **Dechrau Da Oed Cyn Ysgol** ar gyfer plant 3–4 oed. Mae pob pecyn yn cynnwys dau lyfr, ynghyd â gweithgareddau a gemau, ac awgrymiadau i helpu i wneud darllen yn bleserus. Mae rhigymau a gweithgareddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r llyfrau ar gael ar ein gwefan.

## Ein dull dysgu

2024-25 oedd trydedd flwyddyn y rhaglen ac rydym yn parhau i ddysgu gyda phartneriaid a theuluoedd i ddeall a gwella'r effaith rydym yn ei chael. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio ymatebion o ddau arolwg:

- **Arolwg Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol ac arolwg rhieni/gofalwyr** – arolwg ar-lein o 314 o deuluoedd sy'n derbyn y rhaglen o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion a dderbyniwyd rhwng mis Hydref 2024 a mis Medi 2025.
- **Arolwg Partneriaid BookTrust 2025** – arolwg ar-lein o 616 o bartneriaid blynyddoedd cynnar yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Mai 2025. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar 456 o bartneriaid sy'n darparu Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol.

Cafwyd ymatebion i'r arolwg gan ystod eang o bartneriaid a theuluoedd ond gallwn ni ddim bod yn sicr eu bod nhw'n gwbl gynrychioliadol o amrywiaeth ein rhwydwaith partneriaid cyflawni na'r teuluoedd rydym yn eu cefnogi. Mae ein canfyddiadau'n cael eu cefnogi gan yr hyn rydym yn ei glywed wrth weithio'n agos gyda phartneriaid, yn ogystal ag ymchwil dulliau cymysg gynharach.

# Canfyddiadau allweddol

## Heriau yn y dirwedd blynyddoedd cynnar

Mae ein rhaglen Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol yn ymateb i anghenion teuluoedd a nodwyd gan ein partneriaid cyflawni blynyddoedd cynnar. Mae'r partneriaid hyn yn tynnu sylw at nifer o bryderon am yr heriau y mae teuluoedd a phlant ifanc yn eu hwynebu. Mae mwy na 9 o bob 10 partner yn nodi pryderon am les, lleferydd, iaith a datblygiad cymdeithasol-emosiynol plant, yn ogystal â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant o gefndiroedd mwy a llai cefnog.

Ar adeg pan mae llawer o deuluoedd yn wynebu heriau, a phan mae'r bylchau mewn canlyniadau'n cynyddu rhwng plant o deuluoedd incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog, mae darllen yn ffordd o wneud gwahaniaeth cadarnhaol uniongyrchol a hirdymor.

> “Mae Dechrau Da yn ffordd wych o ddangos y mwynhad y mae plentyn yn ei gael allan o lyfrau i'w rieni yn ystod yr ymweliad cartref. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth rhieni i wneud yn siŵr bod darllen yn rhan o'u trefn arferol.” **Partner cyflawni BookTrust ac Ymwelydd Iechyd, Caerdydd, Cymru**

**Mae darllen yn helpu plant i wneud y canlynol:**

- goresgyn anghydraddoldebau cyn iddynt ddyfnhau
- meithrin perthynas â'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt a phrofi gwell lles meddyliol
- cyflawni cerrig milltir datblygu cynnar a gwneud yn well yn yr ysgol
- datblygu empathi, creadigrwydd a dychymyg

Mae corff sylweddol o ymchwil yn cadarnhau bod darllen yn gynnar yn sbardun allweddol i ddatblygiad plant.[6]

Fodd bynnag, mae 95% o bartneriaid yn dweud wrthym eu bod yn pryderu ynghylch y ffaith bod plant yn cael llai o fwynhad o ddarllen. Mae plentyndod wedi newid yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf ac mae'n anoddach nag erioed nawr i deuluoedd ddarllen gyda'i gilydd yn rheolaidd. Mae teuluoedd yn gwybod bod darllen yn bwysig, ond mae rhai yn ei chael hi'n anodd sicrhau ei fod yn rhan o fywyd teuluol gyda phlant ifanc: mae un o bob pump o blant 0-4 oed yn cael rhywun yn darllen llyfr iddynt lai nag unwaith y mis[7], gan golli allan ar y sbardun pwerus hwn o hapusrwydd a llwyddiant yn y dyfodol.

Mae'n dirwedd heriol nid yn unig i deuluoedd â phlant ifanc, ond hefyd i bartneriaid sy'n cynnig cymorth hanfodol yn ystod y blynyddoedd ffurfiannol hyn. Mae 90% o bartneriaid yn dweud eu bod yn pryderu am ddiffyg ymgysylltiad gan deuluoedd. Mae ein gwaith yn helpu i gysylltu'r gwasanaethau o amgylch y teuluoedd hyn ac yn darparu'r offer i'w helpu i rannu llyfrau a straeon.

Mae ein gwaith wedi'i blethu'n ddwfn i'r system gymorth ehangach i blant a theuluoedd, gan helpu partneriaid i integreiddio cymorth darllen yn eu gwaith – mae wyth o bob deg partner yn dweud bod Dechrau Da i Blant Bach (82%) a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol (80%) yn bwysig iawn i'w sefydliad. Ac mae 89% o'r farn bod Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol yn rhaglenni effeithiol ar gyfer cael teuluoedd â phlant ifanc i ddarllen gyda'i gilydd.

> “Mae'r pecynnau wedi caniatáu i'n llyfrgelloedd wneud cysylltiadau â'u grŵp Home-Start lleol [...] O ganlyniad i'r perthnasoedd hyn, mae teuluoedd na fyddent wedi defnyddio eu llyfrgell leol neu wedi teimlo'n gyfforddus ynddi yn flaenorol, yn dod yn rheolaidd i weithgareddau blynyddoedd cynnar, gyda brodyr a chwiorydd hŷn yn cymryd rhan yn sialens ddarllen yr haf.” **Partner cyflawni BookTrust wedi'i leoli yn y gwasanaeth llyfrgell, Swydd Hertford, Lloegr**



**Mae 95% o bartneriaid yn dweud wrthym eu bod yn pryderu ynghylch y ffaith bod plant yn cael llai o fwynhad o ddarllen.**

> “Rwyf wrth fy modd â'r cynnig hwn. Mae'r ffaith ei fod wedi'i dargedu yn golygu ein bod ni'n gallu canolbwyntio ein gwaith lle y mae ei angen fwyaf a rhoi sylw gwirioneddol i'r mannau hynny. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Hybiau i Deuluoedd, sy'n golygu y gallwn ni gyrraedd plant nad ydynt o oed cyn ysgol, rhywbeth na lwyddon ni i wneud yn dda gyda'r hen gynnig cyffredinol.” **Partner cyflawni BookTrust ac Ymwelydd Iechyd, Caerdydd, Cymru**

## Wedi'u cynllunio i wneud gwahaniaeth

Dyluniwyd Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol mewn cydweithrediad â phartneriaid a theuluoedd. Maent yn adeiladu ar gryfderau ac yn mynd i'r afael â'r heriau y mae teuluoedd, partneriaid a chymunedau yn eu hwynebu.




1 **Cefnogi newid ymddygiad darllen:** Mae Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol yn sbarduno brwdfrydedd ac yn meithrin gallu

2 **Cryfhau systemau cymorth darllen o amgylch teuluoedd:** Rydym yn cefnogi ein partneriaid i fanteisio i'r eithaf ar bob rhyngweithiad

3 **Adeiladu ecosystemau darllen cynaliadwy:** Mae gennym bartneriaethau hirdymor ag awdurdodau lleol ac mae Cydlynwyr Dechrau Da yn rhan o'r gwaith



## Nodweddion allweddol ein gwaith

**1 Rydym yn canolbwyntio ar wneud rhannu straeon yn hygyrch ac yn hwyl i deuluoedd.**

Mae partneriaid yn cefnogi teuluoedd i ddarllen mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw. Gyda'n llyfrau a'n hadnoddau a ddewiswyd yn ofalus – sydd wedi'u cynllunio ar gyfer rhyngweithio a chynhwysiant – gall teuluoedd greu eiliadau gwerth chweil sydd mor allweddol wrth ffurfio arferion.

### Pam mae hyn yn bwysig?

Dim pawb sy'n gallu cael gafael ar lyfrau, ac nid pob rhiant/gofalwr sy'n teimlo bod ganddo'r amser i ddarllen a rhannu straeon gyda'i blant neu efallai y bydd angen mwy o arweiniad arno.

Nid yw chwarter rhieni/gofalwyr â phlant 0-7 oed yn ei chael hi'n hawdd darllen gyda'u plentyn.[8]

**2 Rydym yn gweithio gydag ystod amrywiol o bartneriaid sy'n cefnogi teuluoedd ar adegau allweddol.**

Rydym yn darparu rhaglenni hyblyg ac yn rhannu dysgu ar draws ein rhwydwaith. Rydym yn darparu haenau o gymorth sydd wedi'i gynllunio gyda phartneriaid mewn golwg, i helpu i ddatgloi potensial llawn yr hyn sydd

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gweithio yn y blynyddoedd cynnar yn heriol a gall yr amser neu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant dwys neu fentrau newydd fod yn gyfyngedig.

"Mae adnoddau BookTrust yn cynnig cyfle ... i fodelu'r llawenydd o rannu llyfrau gyda phlant a dangos manteision dysgu, datblygu ac amser gwerth chweil. Mae hefyd yn offeryn da i'w ddefnyddio wrth asesu iaith a dealltwriaeth plant."

**Partner cyflawni BookTrust ac Ymwelydd Iechyd, Barnsley, Lloegr**

**3 Rydym yn helpu i nodi, cysylltu ac addasu llwybrau yn barhaus i gyrraedd y teuluoedd sydd angen cymorth darllen fwyaf.**

Mae ein rheolwyr partneriaethau ymroddedig yn gweithio gyda gwasanaethau lleol i gynllunio a chyflawni newid effeithiol mewn ymddygiad darllen, gan gyfuno cynnig cenedlaethol craidd gyda strwythurau a systemau lleol esblygol.

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gan bob cymuned anghenion, cryfderau a heriau gwahanol – ac mae'r rhain yn esblygu dros amser.

"Rydyn ni'n mwynhau ein partneriaeth gyda BookTrust yn fawr. Rydyn ni wedi datblygu'r ffordd rydyn ni'n rhoi'r pecynnau ac mae gennym ni rai partneriaid allweddol nawr yn rhoi pecynnau i deuluoedd, gyda digwyddiadau gwych yn modelu adrodd straeon ac yn defnyddio'r adnoddau i'w llawn effaith."

**Cydlynydd Dechrau Da, Llundain, Lloegr**

# Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud

Mae Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol yn annog teuluoedd i rannu llyfrau a straeon yn fwy aml.

- dywed **76% o deuluoedd** fod Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol wedi eu hysgogi i ddarllen neu rannu llyfrau a straeon mwy gyda'u plant
- dywed **55% o deuluoedd** eu bod wedi ceisio sefydlu arferion darllen gartref o ganlyniad i'r rhaglen

“Mae'r pecyn yn esbonio pa mor bwysig yw'r ffordd y mae llyfrau'n cael eu darllen i greu cyffro, tôn y llais a'r berthynas mae'n caniatáu i chi ei ffurfio gyda'ch plentyn.” **Rhiant neu ofalwr ar incwm canolig neu uwch sy'n derbyn Dechrau Da i Blant Bach, Dinas Derry a Strabane, Gogledd Iwerddon**

“Rydw i wrth fy modd yn cael y pecynnau hyn ac mae fy mhlentyn bach wrth ei bodd hefyd. Mae ei lleferydd a'i hyder wedi datblygu cymaint ers i ni gael ein cyflwyno i Dechrau Da yn Surestart ac rwy'n hapus ein bod ni wedi mynd i'r digwyddiadau. Rydyn ni'n defnyddio ein llyfr pypedau bys bron bob nos cyn gwely.” **Rhiant neu ofalwr ar incwm is sy'n derbyn Dechrau Da i Blant Bach, Dinas Derry a Strabane, Gogledd Iwerddon**

**Mae mwynhad yn hollbwysig wrth ennyn diddordeb teuluoedd mewn darllen.**

Pan fydd rhieni neu ofalwyr a'u plant yn teimlo bod darllen yn bleserus ac yn fuddiol yn ddatblygiadol, maent yn llawer mwy tebygol o'i gynnwys yn eu bywydau bob dydd.

- dywed **98% o rieni a gofalwyr** eu bod wedi mwynhau defnyddio'r rhaglen a dywedodd 99% bod eu plentyn wedi ei mwynhau hefyd
- dysgodd **73% o rieni a gofalwyr** rywbeth newydd am fanteision darllen
- dywed **71% o rieni a gofalwyr** eu bod yn credu'n gryfach yn y manteision y mae darllen yn eu cynnig i'w plentyn

“Roedd derbyn y pecyn yn brofiad cadarnhaol, gan ei fod yn teimlo fel pecyn cymorth defnyddiol i wneud amser darllen yn fwy diddorol ac ystyrlon. Fe wnes i fwynhau defnyddio'r awgrymiadau a'r deunyddiau gwahanol a gafodd eu darparu... Roedd yr offer hyn yn gwneud sesiynau darllen yn fwy rhyngweithiol, ac roeddwn i'n gallu gweld bod fy mhlentyn yn dangos mwy o ddiddordeb mewn straeon.” **Rhiant neu ofalwr ar incwm is sy'n derbyn Dechrau Da Oed Cyn Ysgol, De-orllewin Lloegrlower**





Darganfyddwch fwy am sut mae ein rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gweithio i greu newid mesuradwy yn ymddygiadau darllen teuluoedd yn ein **Theori Newid**.

**Mae cymhelliant yn elfen allweddol, ond i lawer o'r teuluoedd y mae ein partneriaid yn gweithio gyda nhw, mae'n rhaid darparu cymorth i feithrin gallu hefyd – syniadau ymarferol, sicrwydd a'r offer cywir.**

Mae ein hymchwil yn dangos, pan fydd partneriaid yn esbonio beth sydd wedi'i gynnwys yn y pecynnau, yn dangos sut i ddarllen y llyfrau, yn rhannu awgrymiadau ac yn siarad am y manteision, maent yn cael mwy o effaith. Mae hyn yn helpu teuluoedd i gredu mewn manteision darllen, magu hyder a sefydlu arferion darllen.

- **I 35% o deuluoedd** oedd yn derbyn Dechrau Da i Blant Bach, y llyfrau a gawsant oedd rhai o'r cyntaf roedden nhw'n berchen arnynt ar gyfer eu plant
- dywed **76% o rieni a gofalwyr eu** bod wedi **dysgu rhywbeth newydd** am y gwahanol ffyrdd o ddarllen a rhannu straeon gyda'u plant
- dywed **69% o rieni a gofalwyr** fod y rhaglen wedi gwneud iddynt **deimlo'n fwy hyderus** yn darllen ac yn rhannu llyfrau a straeon

"Mae wedi fy annog i fod yn greadigol gyda'r ffordd rwy'n rhannu straeon trwy lyfrau a chaneuon gydag ystumiau. Rwy'n defnyddio lleisiau gwahanol a symudiadau'r corff a chysgodion, ac mae'n ymddangos ei fod yn ei fwynhau'n fawr. Diolch yn fawr iawn." **Rhiant neu ofalwr ar incwm canolig neu uwch sy'n derbyn Dechrau Da i Blant Bach, Llundain, Lloegr**

"Roeddwn i wrth fy modd â'r cardiau gweithgaredd, fe wnaethon nhw ein helpu ni i gael y gorau o lyfrau, fe gawson ni lawer o hwyl yn chwarae'r gemau ac fel arfer rydyn ni'n darllen llyfrau o glawr i glawr ond roedden ni'n meddwl y tu allan i'r bocs gyda'r rhain ac yn meddwl am bob math o gemau sy'n gysylltiedig â'r lliwiau ac ati." **Rhiant neu ofalwr ar incwm canolig neu uwch sy'n derbyn Dechrau Da Oed Cyn Ysgol, De-ddwyrain Lloegr**

Mae adborth yn dangos mai teuluoedd ar incwm isel sy'n gweld y gwahaniaeth mwyaf:

- dywed **82% o deuluoedd** ar incwm isel eu bod yn darllen neu'n rhannu straeon yn fwy – o gymharu â 68% o deuluoedd ar incwm canolig neu uwch
- ceisiodd **68% o deuluoedd** ar incwm isel sefydlu arferion darllen – o gymharu â 43% o deuluoedd ar incwm canolig neu uwch



## Meithrin gallu

Dywedodd teuluoedd a dderbyniodd Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol wrthym fod y rhaglen wedi eu helpu i ddysgu am:

**Strategaethau darllen diddorol** – awgrymiadau a syniadau ymarferol i wneud darllen yn rhyngweithiol (darllen mynegiannol, gan ddefnyddio lleisiau ac ystumiau gwahanol), sy'n helpu i ddal sylw eu plentyn, gwella dealltwriaeth a gwneud darllen yn fwy o hwyl.

**Rhannu straeon yn rhyngweithiol** – gwneud darllen yn fwy o brofiad dwyffordd a dysgu ffyrdd newydd o fynd ati i gynnwys plant wrth ddarllen trwy bwyntio a sylwi, gofyn cwestiynau, chwarae gemau, ac adrodd straeon dychmygus.

**Mynd â straeon y tu hwnt i lyfrau** – dysgu sut i gysylltu cynnwys stori â chyd-destunau bywyd go iawn ac annog meddwl yn ddychmygus. Mae cysylltu straeon â phrofiadau bob dydd yn ychwanegu perthnasedd ac yn dangos sut y gall rhieni/gofalwyr fynd ati i gynnwys darllen yn naturiol mewn arferion bob dydd.

**Dewis y llyfrau cywir ar gyfer eu plentyn** – roedd rhai rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi arweiniad ar ddewis llyfrau a oedd yn addas i oedran a cham datblygu'r plentyn y gallai eu plant eu mwynhau.

**Ceisio mwy o gymorth** – roedd rhai teuluoedd o'r farn bod y wybodaeth yn y rhaglen yn ddefnyddiol i'w hatgoffa i ddefnyddio'r llyfrgell neu archwilio adnoddau pellach ar-lein.

"Roedd y rhaglen yn teimlo fel pecyn cymorth defnyddiol ar gyfer gwneud amser darllen yn fwy diddorol ac ystyrlon. Fe wnes i fwynhau defnyddio'r awgrymiadau a'r deunyddiau gwahanol a gafodd eu darparu, fel awgrymiadau ar gyfer darllen mynegiannol a syniadau ar sut i gynnwys fy mhlentyn wrth adrodd straeon. Roedd yr offer hyn yn gwneud sesiynau darllen yn fwy rhyngweithiol, ac roeddwn i'n gallu gweld fy mhlentyn yn dangos mwy o ddiddordeb mewn straeon." **Rhiant neu ofalwr ar incwm is sy'n derbyn Dechrau Da Oed Cyn Ysgol, De-orllewin Lloegr**

Trwy gefnogi ein partneriaid i ennyn diddordeb teuluoedd mewn darllen, gallwn greu mwy o'r eiliadau hyn, i fwy o'r teuluoedd sydd eu hangen.

- mae **96% o bartneriaid** a ddefnyddiodd Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf yn cytuno bod y rhaglen wedi eu helpu i ennyn diddordeb teuluoedd mewn darllen

“Heb BookTrust, fyddem ni ddim wedi gallu darparu llyfrau i blant teuluoedd incwm isel a'u hannog i ddechrau darllen. Mae BookTrust yn hanfodol ar gyfer hyn ac mae'r hyn maen nhw'n ei ddarparu wir yn newid bywydau. Rydyn ni'n cefnogi teuluoedd sydd heb arian i brynu dillad i'w plant, pa obaith sydd ganddyn nhw o brynu llyfrau iddyn nhw eu darllen fel arall?”
**Partner cyflawni BookTrust sy'n gweithio mewn elusen, Lisburn a Castlereagh, Gogledd Iwerddon**

“Mae adnoddau BookTrust wedi cael effaith fawr ar y plant sy'n dod i'n lleoliad ni, yn ogystal â'u teuluoedd a'r staff. Mae'r pecynnau wedi ein galluogi i ddod â theuluoedd at ei gilydd i annog darllen gyda phlant ac maen nhw hefyd yn rhoi cyfle i rieni fagu hyder ac i gysylltu.”
**Partner cyflawni BookTrust sy'n gweithio mewn elusen addysg blynyddoedd cynnar, Belfast, Gogledd Iwerddon**

Mae hyblygrwydd ein rhaglenni yn golygu y gall ein hystod amrywiol o bartneriaid ddefnyddio cymorth darllen i wella eu darpariaeth eu hunain a chyflawni blaenoriaethau lleol.

- mae **89% o bartneriaid** a ddefnyddiodd Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf yn cytuno ein bod ni wedi cefnogi amcanion eu sefydliad

**Mae 96% o bartneriaid yn cytuno bod y rhaglen wedi eu helpu i ennyn diddordeb teuluoedd mewn darllen**



**Mae 89% o bartneriaid yn cytuno ein bod wedi cefnogi amcanion eu sefydliad**





# Beth nesaf?

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi ymgorffori Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol mewn cymunedau ar draws tair gwlad, gan gyrraedd cannoedd o filoedd o deuluoedd. Ond rydym yn cydnabod bod llawer mwy sydd angen cymorth gennym o hyd. Mae ein strategaeth newydd – **Darllen ar gyfer dyfodol mwy disglair** – yn nodi ein hymrwymiad i ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu am brif ysgogwyr effaith i ddatblygu a gwneud mwy o'r hyn rydym yn gwybod sy'n gweithio. Byddwn yn cryfhau'r cymorth a roddir i'n partneriaid cyflawni: fel eu bod yn gwybod beth sydd fwyaf effeithiol i'w cynnwys yn eu hymarfer, yn cael mynediad at gyfres hyblyg o offer, ac yn parhau i gael eu hysbrydoli i helpu mwy o deuluoedd i ddarllen a rhannu straeon.

# Cyfeiriadau

1 Rydym yn diffinio teuluoedd incwm isel fel aelwydydd mewn tlodi cymharol, h.y. incwm cartref sydd 60% yn is na'r canolrif cenedlaethol. Ewch i gov.uk i gael rhagor o wybodaeth am **ystadegau ar aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog**.

2 Yn cynnwys lleoliadau preifat, gwirfoddol ac annibynnol, ysgolion meithrin a gynhelir, cylchoedd chwarae a gwarchodwyr plant

3 Yn cynnwys Hybiau i Deuluoedd, canolfannau plant, canolfannau SureStart, Home Start, timau Cymorth Cynnar, a Dechrau'n Deg

4 Yn cynnwys Ymwelwyr Iechyd, Partneriaethau Nyrsys Teulu, a chymorth iaith a lleferydd

5 Yn cynnwys banciau bwyd, canolfannau lloches i fenywod, sefydliadau cymorth addysgol neu rianta a llawer mwy.

6 BookTrust (2025) **"Manteision darllen"** Leeds: BookTrust

7 BookTrust a Nielsen BookData (2024) *Understanding the Children's Book Consumer 2024*. Arolwg ar-lein o rieni/gofalwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024. Data heb ei gyhoeddi. Ffigurau yn seiliedig ar ymatebion gan 576 o rieni/gofalwyr plant 0-4 oed

8 Arolwg ar-lein YouGov, Ionawr 2024, arolwg o 1,036 o rieni/gofalwyr yn y DU â phlant 0-7 oed






# Ynglŷn â BookTrust

BookTrust yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU. Bob blwyddyn rydym yn cyrraedd dros 1.4 miliwn o blant a theuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio gyda phob awdurdod lleol a chyngor, gan ddarparu rhaglenni yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiadau darllen plant. Mae ein gwaith wedi'i wreiddio yn y gred bod pob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel neu deuluoedd sy'n agored i niwed, yn haeddu'r cyfle i fwynhau darllen a'r holl fanteision gydol oes mae'n ei gynnig.

## Research at BookTrust

Mae ein dysgu yn cael ei arwain gan ein **Theori Newid** a'i gefnogi gan ein **Grŵp Goruchwylio Dysgu**. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymchwil, arloesi ac effaith yn BookTrust ar ein gwefan, gan gynnwys ein cyfres ymchwil blynyddoedd cynnar:

- **Pam mae dechrau darllen ar y cyd yn gynnar yn bwysig**
- **Arferion darllen plant yn y blynyddoedd cynnar**
- **Cefnogi cylchoedd cenedlaethau o ddarllenwyr**

Ewch i **booktrust.org.uk** i ddarganfod mwy neu cysylltwch â **queries@booktrust.org.uk**

